
# Amcanestyniadau Poblogaeth ar gyfer y parciau cenedlaethol yng Nghymru, sail - 2014

**26 Gorffennaf 2017**
**SFR 80/2017**

Amcanir y bydd poblogaeth Bannau Brycheiniog yn cynyddu 1.9 y cant rhwng 2014 a 2029 ac y bydd poblogaeth Arfordir Penfro ac Eryri'n lleihau. Amcanir mai poblogaeth Arfordir Penfro fydd yn lleihau fwyaf (12.3 y cant), ac yna boblogaeth Eryri (6.6 y cant).

**Siart 1: Poblogaeth yn ôl Parc Cenedlaethol yn 2014 ac Amcanestyniad o'r Boblogaeth yn 2029**




Ffynhonnell: amcanestyniadau o boblogaeth parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

Mae'r amcanestyniadau'n seiliedig ar fethodoleg debyg i'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer yr amcanestyniadau o boblogaeth parciau cenedlaethol Cymru yn seiliedig ar 2013 (mae manylion y rhain yn yr adran Gwybodaeth am Ansawdd yng nghefn y datganiad).

## Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno canlyniadau'r amcanestyniadau o boblogaeth parciau cenedlaethol yng Nghymru, yn seiliedig ar 2014, ar gyfer y cyfnod 15 mlynedd o 2014 i 2029.

Maent yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2014 a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn rhoi amcangyfrifon o faint y boblogaeth yn y dyfodol ac maent yn seiliedig ar dybiaethau am enedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r tybiaethau'n seiliedig gan fwyaf ar dueddiadau'r blynyddoedd diwethaf.

## Yn y datganiad hwn

Rhagarweiniad 2
Pwyntiau allweddol 4
Amcanestyniadau'r parciau cenedlaethol 11
Nodiadau 20

Ystadegydd: Kim Saunders ~ 0300 025 5050 ~ ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru

Ymholiadau'r wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau'r cyhoedd : 0300 025 5050 Twitter: @YstadegauCymru

## Rhagarweiniad

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn rhoi amcangyfrifon o faint y boblogaeth yn y dyfodol ac maent yn seiliedig ar dybiaethau am enedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r tybiaethau'n seiliedig gan fwyaf ar dueddiadau'r blynyddoedd diwethaf. Nid rhagolygon yw amcanestyniadau poblogaeth ac nid ydynt yn ceisio rhagweld sut y gallai polisïau'r llywodraeth yn y dyfodol, newidiadau i amgylchiadau economaidd neu ffactorau eraill (er enghraifft, polisïau'r llywodraeth ar fewnfudo neu oblygiadau canlyniad refferendwm yr UE) effeithio ar ymddygiad demograffig.

Mae'r amcanestyniadau hyn sy'n seiliedig ar 2014 yn amcanestyniadau seiliedig ar dueddiadau ar gyfer y cyfnod 25 mlynedd o 2014 i 2039. Maent yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2014 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ym mis Mehefin 2015. Gan eu bod yn seiliedig ar dueddiadau, maent yn mynd yn llai sicr wrth fynd yn bellach i'r dyfodol.

Mae'r amcanestyniadau hyn yn rhan o'r sail dystiolaeth sydd ei hangen i gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer parc cenedlaethol a dylid eu defnyddio fel man cychwyn; fodd bynnag, gan fod yr amcanestyniadau'n seiliedig ar dueddiadau, efallai yr hoffai awdurdodau cynllunio lleol gynhyrchu eu hamcanestyniadau eu hunain yn seiliedig ar bolisïau, ac os felly, dylent gyfiawnhau'r dull y maent wedi dewis ei ddefnyddio. Dylai awdurdodau cynllunio lleol hefyd ddefnyddio unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael i gyfrannu at y sail dystiolaeth, megis asesiadau o'r farchnad dai leol. Amcanestyniadau ar gyfer parciau cenedlaethol Cymru yw'r rhain; nid eu bwriad yw rhoi amcanestyniadau i Gymru gyfan. Cynhyrchir y rhain gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Rhoddir mwy o wybodaeth am hyn yn yr adran cymariaethau yn y datganiad.

Mae'r adran gwybodaeth am ansawdd ar ddiwedd y datganiad hwn yn rhoi gwybodaeth bellach am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r amcanestyniadau hyn. Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno canlyniadau 15 mlynedd gyntaf cyfnod yr amcanestyniadau (canol 2014 hyd at ganol 2029). Mae canlyniadau cyfnod llawn 25 mlynedd yr amcanestyniadau i'w gweld ar-lein drwy ddilyn y ddolen ganlynol StatsCymru. Mae amcanestyniadau'n mynd yn llai sicr wrth fynd yn bellach i'r dyfodol, a bernir bod y cyfnod 15 mlynedd a ddefnyddir ym mhrif ran y datganiad yn gyfaddawd rhesymol rhwng cwmpas yr amcanestyniadau a'u dibynadwyedd.

## Allbynnau

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys yr amcanestyniadau ar gyfer pob parc cenedlaethol yng Nghymru. Maent yn seiliedig ar ddata am enedigaethau, marwolaethau a mudo ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd hyd at ganol 2014. Felly, ystyrir bod yr amcanestyniadau hyn yn rhoi'r adlewyrchiad gorau o batrymau demograffig diweddar ar adeg eu cynhyrchu.

Cyhoeddwyd y datganiad hwn ar wefan Llywodraeth Cymru ac mae cyfres o dablau wedi'u cyhoeddi ar wefan StatsCymru. Mae canllawiau ynglŷn â'r fethodoleg fanwl a ddefnyddiwyd i gynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol Cymru yn 2013 wedi'u cyhoeddi yn yr adroddiad technegol hwn.

Mae'n disgrifio sut y cynhyrchwyd yr amcanestyniadau o boblogaeth y parciau cenedlaethol, ac yn disgrifio'n fanwl y fethodoleg a ddefnyddiwyd i ffurfio tybiaethau am ffrwythlondeb, marwolaethau, a mudo. Diweddarir yr adroddiad hwn yn y misoedd nesaf i adlewyrchu amcanestyniadau 2014.

Mae adroddiad ansawdd ar gyfer yr ystadegau hyn (a'r amcanestyniadau eraill) ar gael yma.

## Pwyntiau allweddol

### Y newid poblogaeth a amcanir

- Er yr amcanir y bydd poblogaeth Bannau Brycheiniog yn cynyddu rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd poblogaethau Arfordir Penfro ac Eryri'n lleihau.
- Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y boblogaeth sy'n byw mewn parc cenedlaethol yng Nghymru (81,800 yn 2014) yn lleihau 4.7 y cant i 77,900 yn 2029.
- Amcangyfrifir y bydd poblogaeth Bannau Brycheiniog (33,600 yn 2014) yn cynyddu 1.9 y cant.
- Amcangyfrifir y bydd poblogaeth Arfordir Penfro (22,800 yn 2014) yn lleihau 12.3 y cant.
- Amcangyfrifir y bydd poblogaeth Eryri (25,500 yn 2014) yn lleihau 6.6 y cant.

### Tybiaethau am fudo

Mae'r tybiaethau am fudo'n seiliedig ar y cyfnod 5 mlynedd hyd at ganol 2014.

- Disgwylir i fwy o bobl symud i Fannau Brycheiniog na gadael yr ardal; ar gyfer Arfordir Penfro ac Eryri, disgwylir i fwy o bobl adael yr ardal na symud i mewn.
- Amcangyfrifir bod mudo net o fewn parciau cenedlaethol yn amrywio rhwng -50 a +150 y flwyddyn.

### Amcanu genedigaethau a marwolaethau

- Bydd nifer y marwolaethau ym mhob un o dri parc cenedlaethol Cymru'n fwy na nifer y genedigaethau (hynny yw, newid naturiol negatif).

### Ardaloedd gweddilliol

Mae llawer o awdurdodau lleol wedi'u lleoli fel bod rhan ohonynt mewn parc cenedlaethol a rhan y tu allan iddo. Gelwir yr ardal sydd y tu allan yn ardal weddilliol[1].




Rhwng 2014 a 2029:

- Ac eithrio Powys, amcanir y bydd poblogaeth pob ardal weddilliol yn cynyddu rhwng 0.3 ac 8.8 y cant.
- Amcanir y bydd poblogaeth ardal weddilliol Powys yn lleihau 3.7 y cant.

[1] Gweler tudalen 8 am wybodaeth bellach am ardaloedd gweddilliol

## Newidiadau i'r fethodoleg

Ar gyfer amcanestyniadau 2014, dilynwyd yr un fethodoleg ag ar gyfer yr amcanestyniad seiliedig ar 2013; fodd bynnag, bu dau newid a gymeradwywyd gan weithgor Amcanestyniadau Is-genedlaethol Cymru (WASP). I gael mwy o wybodaeth am y grŵp hwn a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r amcanestyniadau hyn, gweler yr adroddiad technegol

### Poblogaeth carcharorion

Wrth gynhyrchu'r amcanestyniadau hyn, gwelwyd newid mawr yn y data am garcharorion a gyflenwir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Hyd at yr amcangyfrifon o'r boblogaeth yng nghanol 2011, gan gynnwys y rheini, roedd poblogaeth carcharorion yn seiliedig ar bobl a oedd wedi treulio 6 mis neu fwy yn y carchar. Ar ôl Cyfrifiad 2011, newidiodd y diffiniad i bobl a oedd wedi cael dedfryd o 6 mis neu fwy yn y carchar; dyna sy'n gyfrifol am y cynnydd yn y niferoedd. Felly, byddai defnyddio tuedd pum mlynedd (2010 i 2014) yn cynnwys 2010 a 2011 ar yr hen sail a 2012 i 2014 ar y sail newydd, ac yn rhoi cyfartaledd is. Felly, defnyddiwyd cyfartaledd tair blynedd. Dim ond yn ardal weddilliol Sir Fynwy y mae hyn yn cael effaith.


### Gwahanrediadau'r Amcanestyniad o'r Boblogaeth Genedlaethol

Defnyddir yr Amcanestyniadau o'r Boblogaeth Genedlaethol (NPP) a gynhyrchir gan ONS yn yr Amcanestyniadau o'r Boblogaeth Is-genedlaethol (SNPP). Defnyddir y rhain i ganfod tuedd genedigaethau a marwolaethau (gwahanrediadau) yn y dyfodol i'w cymhwyso i ardaloedd awdurdodau lleol ac felly, i ardaloedd parciau cenedlaethol. Yn yr amcanestyniadau NPP, mae ONS yn defnyddio cyfraddau ffrwythlondeb a marwolaethau a amcanir i amcanu niferoedd genedigaethau a marwolaethau.  Addasir y cyfraddau ffrwythlondeb a marwolaethau ym mlwyddyn gyntaf yr amcanestyniadau i sicrhau bod nifer y genedigaethau a'r marwolaethau a geir o ganlyniad yn hafal i'r amcangyfrifon dros dro sydd ar gael. Nid yw cyfraddau'r blynyddoedd wedyn yn newid.

## Cefndir

Pasiwyd Deddf Seneddol yn 1949 i sefydlu parciau cenedlaethol gyda'r nod o warchod eu harddwch naturiol, gwarchod bywyd gwyllt, a darparu cyfleoedd hamdden i'r cyhoedd. Mae 15 parc cenedlaethol ym Mhrydain: 3 yng Nghymru, 10 yn Lloegr a 2 yn yr Alban.

**Map 1: Parciau Cenedlaethol yng Nghymru**




Yng Nghymru, mae gan bob parc cenedlaethol ei Awdurdod Parc Cenedlaethol ei hun, sydd hefyd yn Awdurdod Cynllunio statudol ar gyfer ardal y parc.

Y tri pharc cenedlaethol yng Nghymru yw:

- Bannau Brycheiniog (arwynebedd o 1,344 cilometr sgwâr),
- Arfordir Penfro (arwynebedd o 621 cilometr sgwâr),
- Eryri (arwynebedd o 2,176 cilometr sgwâr).

Maent yn 19.9 y cant o arwynebedd Cymru, o gymharu â 9.3 y cant ar gyfer parciau cenedlaethol Lloegr a 7.2 y cant ar gyfer rhai'r Alban. Mae tri pharc cenedlaethol Cymru wedi'u dangos ar Fap 1.

Dwysedd poblogaeth Cymru yw 149 o bobl i bob cilometr sgwâr. Dwyseddau poblogaeth y parciau cenedlaethol yng Nghymru yw:

- 25 o bobl i bob cilometr sgwâr ym Mannau Brycheiniog,
- 37 o bobl i bob cilometr sgwâr yn Arfordir Penfro,
- 12 o bobl i bob cilometr sgwâr yn Eryri.


Er nad oes poblogaeth ddwys ym mharciau cenedlaethol Cymru, maent yn cynnwys trefi bach a phentrefi yn ogystal â ffermydd mwy anghysbell. Felly, mae gan y parciau cenedlaethol yng Nghymru;

- 20% o'r arwynebedd
- ond dim ond 2.6% o'r boblogaeth.

## Ardaloedd gweddilliol

Mae llawer o awdurdodau lleol wedi'u lleoli fel bod rhan ohonynt mewn parc cenedlaethol a rhan y tu allan iddo. Gelwir yr ardal sydd y tu allan i'r parc cenedlaethol yn 'ardal weddilliol'.

Mae'r diagram canlynol yn dangos y gyfran o arwynebedd awdurdodau lleol sydd o fewn parc cenedlaethol a gweddill yr awdurdod lleol y tu allan i'r parc cenedlaethol (ardal weddilliol);




Ffynhonnell: amcanestyniadau o boblogaeth parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

I fod yn fanwl gywir, mae darnau bach iawn o'r parciau cenedlaethol o fewn awdurdodau lleol eraill, ond mae'r rhain mor fach nes y gellir eu hanwybyddu ar gyfer y datganiad hwn.

Mae'r amcangyfrifon o boblogaethau'r ardaloedd gweddilliol wedi'u ffurfio o amcangyfrifon ardaloedd bach ac o wneud tybiaethau ynglŷn â dosbarthiad y boblogaeth mewn ardaloedd nad ydynt o fewn parciau cenedlaethol, felly er eu bod yn syniad defnyddiol o faint y boblogaeth a newid y boblogaeth, ni ddylid meddwl eu bod yn ffigurau manwl gywir.

## Ardaloedd gweddilliol o gwmpas Bannau Brycheiniog

### Powys

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd poblogaeth **weddilliol** Powys yn lleihau tua 3,900 (neu 3.7 y cant). Hwn yw’r lleihad mwyaf a amcanir yng Nghymru. Amcanir y bydd pob grŵp oedran yn lleihau ar wahân i bobl 65 oed neu hŷn (amcanir y bydd y rhain yn cynyddu 8,400). Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 700 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2029; fodd bynnag, bydd lleihad 4,700 yn y boblogaeth oherwydd newid naturiol yn mwy na gwrthbwyso'r cynnydd hwn.

### Sir Gaerfyrddin

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd poblogaeth **weddilliol** Sir Gaerfyrddin yn cynyddu tua 3,300 (neu 1.8 y cant). Amcanir y bydd pob grŵp oedran yn lleihau ar wahân i bobl 65 oed neu hŷn (amcanir y bydd y rhain yn cynyddu 12,300). Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 7,200 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2029; bydd lleihad 3,900 yn y boblogaeth oherwydd newid naturiol yn gwrthbwyso'r cynnydd hwn yn rhannol.

### Rhondda Cynon Taf

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd poblogaeth **weddilliol** Rhondda Cynon Taf yn cynyddu 7,000 (neu 2.9 y cant). Amcanir y bydd cynnydd yn y grwpiau oedran 5-15 oed a 65 oed neu hŷn. Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 1,200 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2029 a bydd newid naturiol yn gyfrifol am gynnydd pellach o 5,800.

### Merthyr Tudful

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd poblogaeth **weddilliol** Merthyr Tudful yn gweld lleihad bach iawn o 170 (neu 0.3 y cant). Amcanir y bydd cynnydd yn y grwpiau oedran 11-15 oed a 65 oed neu hŷn, ond gwrthbwysir hyn gan y grwpiau oedran eraill.  Bydd mudo net yn gyfrifol am leihad o 800 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2029; bydd cynnydd 900 yn y boblogaeth oherwydd newid naturiol yn gwrthbwyso'r cynnydd hwn i raddau.

### Sir Fynwy

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd poblogaeth **weddilliol** Sir Fynwy'n cynyddu 1100 (neu 1.2 y cant). Amcanir y bydd pob grŵp oedran yn lleihau ar wahân i bobl 65 oed neu hŷn (amcanir y bydd y rhain yn cynyddu 8,500). Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 4,000 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2029; bydd lleihad 2,900 yn y boblogaeth oherwydd newid naturiol yn gwrthbwyso'r cynnydd hwn.

## Ardaloedd gweddilliol o gwmpas Arfordir Penfro

### Sir Benfro

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd poblogaeth **weddilliol** Sir Benfro'n cynyddu tua 3,600 (neu 3.4 y cant). Amcanir y bydd cynnydd yn y grŵp oedran 65 oed a hŷn (7,800). Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 4,600 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2029; bydd lleihad 1,000 yn y boblogaeth oherwydd newid naturiol yn gwrthbwyso'r cynnydd hwn.

## Ardaloedd gweddilliol o gwmpas Eryri

### Gwynedd

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd poblogaeth **weddilliol** Gwynedd yn cynyddu ychydig dros 8,700 (neu 7.9 y cant). Mae tua 57 y cant o'r cynnydd hwnnw yn y boblogaeth sy'n 65 oed neu'n hŷn; amcanir y bydd y boblogaeth honno'n cynyddu 5,100. Mae tua 70 y cant o'r cynnydd a amcanir yn digwydd oherwydd mudo net (6,000), ac mae newid naturiol yn cynyddu 2,700.

### Conwy

Rhwng 2014 a 2029, amcanir y bydd poblogaeth **weddilliol** Conwy'n cynyddu bron 1,500 (neu 1.3 y cant). Er yr amcanir y bydd y grwpiau oedran iau'n lleihau, amcanir y bydd nifer y bobl 75 oed neu hŷn yn cynyddu tua 7,500. Bydd mudo net yn gyfrifol am gynnydd o 7,000 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2029 a bydd newid naturiol i lawr 5,500.

## Amcanestyniadau o boblogaeth y Parciau Cenedlaethol

### Newid naturiol

Rhwng 2014 a 2029, amcangyfrifir y bydd nifer y marwolaethau ym mhob un o dri parc cenedlaethol Cymru'n fwy na nifer y genedigaethau (hynny yw, newid naturiol negatif). Un peth a allai achosi'r gostyngiad yn nifer y genedigaethau yw'r lleihad yn niferoedd cohortau menywod ifanc.

### Mudo


Mae lefel gyson o fewnfudo ac allfudo (hynny yw, nifer y bobl sy'n symud i ardal neu'n ei gadael) wedi'i thybio ym mhob parc cenedlaethol. Mae hyn yn seiliedig ar lefelau mewnfudo ac allfudo dros y pum mlynedd o 2009 hyd 2014.

Disgwylir i fwy o bobl symud i Fannau Brycheiniog na gadael yr ardal, amcangyfrif o 150 o bobl y flwyddyn. Yn Arfordir Penfro, disgwylir i 50 yn fwy o bobl adael yr ardal na symud i mewn ac yn Eryri, disgwylir i 60 yn fwy o bobl adael yr ardal na symud i mewn.

### Poblogaeth

Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y boblogaeth sy'n byw mewn parc cenedlaethol yng Nghymru (81,750 yn 2014) yn lleihau 4.7 y cant rhwng 2014 a 2029 i 77,900. Fodd bynnag, mae gwahanol dueddiadau i'w gweld o fewn gwahanol grwpiau oedran.

***Siart 3: Amcanestyniadau o Boblogaeth y Parciau Cenedlaethol rhwng 2014-2029, yn ôl oedran.***




Ffynhonnell: amcanestyniadau o boblogaeth parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

Rhwng 2014 a 2029 amcanir y bydd nifer y bobl **o dan 16** oed ym Mannau Brycheiniog yn cynyddu (er bod y cynnydd yn fach) ond yn Arfordir Penfro ac Eryri, amcanir y bydd poblogaeth y rheini o dan 16 oed yn lleihau. Un peth a allai achosi hyn yw'r lleihad ym maint y cohortau iau o ganlyniad i gyfraddau geni cymharol isel ar ôl y flwyddyn 2000.

Amcanir y bydd nifer y bobl **rhwng 16 a 64** oed yn y tri pharc cenedlaethol yng Nghymru'n lleihau 16% (2,560) rhwng 2014 a 2029. Hwn yw'r grŵp oedran y mae mudo fwyaf tebygol o effeithio arno; hynny yw, mae pobl rhwng 16 a 64 oed yn fwy tebygol o adael ardal parc cenedlaethol na symud i mewn i un (mae cyflogaeth yn ffactor pwysig yn hyn o beth).


Amcanir y bydd nifer y bobl **65 oed a hŷn** yn y tri pharc cenedlaethol yng Nghymru'n cynyddu 24% (3,140) rhwng 2014 a 2029. Mae pobl yn y grŵp oedran hwn yn llai tebygol o adael yr ardal ac mae effaith y cynnydd mewn genedigaethau rhwng diwedd yr 1940au a dechrau'r 1960au yn dechrau lleihau.

## Bannau Brycheiniog

Mae gan barc cenedlaethol Bannau Brycheiniog boblogaeth o 33,600 (amcangyfrif canol blwyddyn 2014) sy'n rhoi dwysedd poblogaeth o 25 o bobl i bob cilometr sgwâr.

Amcanir y bydd y boblogaeth yn lleihau 1.9 y cant rhwng 2014 a 2029; y boblogaeth a amcanir yw 34,200. Amcanir y bydd nifer y bobl o dan 65 oed yn lleihau dros yr un cyfnod, ac amcanir y bydd nifer y bobl 65 oed neu hŷn yn cynyddu.

Amcanir y bydd newid naturiol yn negatif dros gyfnod yr amcanestyniad; hynny yw, mwy o farwolaethau na genedigaethau. Amcanir y bydd nifer y genedigaethau'n lleihau'n gyson (yn rhannol oherwydd cohortau llai o oedolion benywol yn eu 20au a'u 30au) ac y bydd nifer y marwolaethau'n cynyddu'n gyson. O ganlyniad i hyn, amcanir y bydd y gwahaniaeth rhwng genedigaethau a marwolaethau'n cynyddu'n gyson dros gyfnod yr amcanestyniad.





Ffynhonnell: amcanestyniadau o boblogaeth parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

Amcanir y bydd tua 150 yn fwy o bobl y flwyddyn yn symud i Fannau Brycheiniog nag yn gadael, yn seiliedig ar lefelau mewnfudo ac allfudo dros y pum mlynedd o 2009 hyd 2014.

Mae'r pyramid poblogaeth canlynol yn dangos dosraniadau oedran gwrywod a benywod ym mharc cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn 2014 a'r dosraniad a amcanir yn 2029.

**Siart 4: Amcanestyniadau o Boblogaeth Bannau Brycheiniog rhwng 2014-2029, yn ôl oedran a rhyw**




Ffynhonnell: amcanestyniadau o boblogaeth parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

Amcanir y bydd niferoedd pobl hŷn ym Mannau Brycheiniog (ynghyd â'r ddau barc cenedlaethol arall) yn cynyddu rhwng 2014 a 2029. Mae'r cynnydd yn fwy ar gyfer gwrywod na benywod, ac mae'n debyg bod hyn oherwydd bod disgwyliad oes gwrywod yn cynyddu. Mae hyn yn gyson â'r patrymau sydd i'w gweld yn gyffredinol ledled Cymru, sef amcanu cynnydd yn y grwpiau oed hŷn.

Amcanir y bydd niferoedd pobl ifanc ym Mannau Brycheiniog yn lleihau rhwng 2014 a 2029, fel yn y ddau barc cenedlaethol arall yng Nghymru. Un peth a allai achosi hyn yw'r lleihad ym maint y cohortau iau o ganlyniad i gyfraddau geni cymharol isel ar ôl y flwyddyn 2000. Mae'r patrwm yn debyg ar gyfer gwrywod a benywod, ond mae'r lleihad ychydig bach yn fwy ar gyfer benywod.

Pob oedolyn (gwryw a benyw);

Roedd nifer y bobl o dan 16 oed ym Mannau Brycheiniog yn 5,200 yn 2014, ac amcanir y bydd y nifer yn cynyddu ychydig bach, 1.5 y cant, i 5,300 yn 2029. O'r ardaloedd gweddilliol o gwmpas Bannau Brycheiniog, amcanir y bydd niferoedd y bobl dan 16 oed yn;

- Lleihau yn Sir Gaerfyrddin, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Phowys
- Ac yn cynyddu yn Rhondda Cynon Taf

Roedd nifer y bobl rhwng 16 a 64 oed ym Mannau Brycheiniog yn 19,700 yn 2014, ac amcanir y bydd yn lleihau 12.9 y cant i 17,200 yn 2029. Amcanir lleihad yn niferoedd y bobl 16-64 oed yn yr ardaloedd gweddilliol o gwmpas Bannau Brycheiniog, gan amrywio o 2.8 y cant yn Rhondda Cynon Taf i 16.6 y cant ym Mhowys.


Roedd nifer y bobl 65 oed a hŷn ym Mannau Brycheiniog yn 8,600 yn 2014, ac amcanir y bydd yn cynyddu 36.5 y cant i 11,700 yn 2029. Amcanir cynnydd yn niferoedd y bobl dros 65 oed yn yr ardaloedd gweddilliol o gwmpas Bannau Brycheiniog, gan amrywio o 22.7 y cant yn Rhondda Cynon Taf i 40.6 y cant yn Sir Fynwy.

## Arfordir Penfro

Mae gan barc cenedlaethol Arfordir Penfro boblogaeth o 22,700 (amcangyfrif canol blwyddyn 2014) sy'n rhoi dwysedd poblogaeth o 37 o bobl i bob cilometr sgwâr.

Amcanir y bydd y boblogaeth yn lleihau 12.3 y cant erbyn 2029; y boblogaeth a amcanir yw 19,900. Amcanir y bydd nifer y bobl o dan 65 oed yn lleihau rhwng 2014 a 2029. Dros yr un cyfnod, amcanir y bydd nifer y bobl 65 oed neu hŷn yn cynyddu.


Amcanir y bydd newid naturiol yn negatif dros gyfnod yr amcanestyniad; hynny yw, mwy o farwolaethau na genedigaethau. Amcanir y bydd nifer y genedigaethau'n lleihau'n gyson (yn rhannol oherwydd cohortau llai o oedolion benywol yn eu 20au a'u 30au) ac y bydd nifer y marwolaethau'n aros yn eithaf cyson. O ganlyniad i hyn, amcanir y bydd y gwahaniaeth rhwng genedigaethau a marwolaethau'n cynyddu'n gyson dros gyfnod yr amcanestyniad.




Ffynhonnell: amcanestyniadau o boblogaeth parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

Amcanir y bydd tua 50 yn llai o bobl y flwyddyn yn symud i Arfordir Penfro nag yn gadael, yn seiliedig ar lefelau mudo dros y pum mlynedd o 2009 hyd 2014. Mae'r pyramid poblogaeth canlynol yn dangos dosraniadau oedran gwrywod a benywod ym mharc cenedlaethol Arfordir Penfro yn 2014 a'r dosraniad a amcanir yn 2029.

**Siart 5: Amcanestyniadau o Boblogaeth Arfordir Penfro rhwng 2014-2029, yn ôl oedran a rhyw**




Ffynhonnell: amcanestyniadau o boblogaeth parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

Amcanir y bydd poblogaeth pobl rhwng 35 a 64 oed yn Arfordir Penfro'n lleihau erbyn 2029.

Mae’r lleihad yn llawer uwch ymysg benywod (lleihad 1300) na gwrywod (lleihad 730).

Amcanir y bydd niferoedd pobl hŷn (65+ oed) yn Arfordir Penfro (ynghyd â'r ddau barc cenedlaethol arall) yn cynyddu rhwng 2014 a 2029. Amcanir y bydd y cynnydd yn y grwpiau oed hŷn yn gyson ymysg gwrywod a benywod. Hefyd, gwelwyd bod y lleihad a amcanir yn y grwpiau oed iau yn debyg ymysg gwrywod a benywod. Un peth a allai achosi'r lleihad yn nifer y bobl iau yw'r lleihad ym maint y cohortau iau o ganlyniad i gyfraddau geni cymharol isel ar ôl y flwyddyn 2000.

### Pob oedolyn (gwryw a benyw);

Roedd nifer y bobl o dan 16 oed ym mharc cenedlaethol Arfordir Penfro'n 3,200 yn 2014, ac amcanir y bydd y nifer yn lleihau 18.9 y cant i 2,600 yn 2029. Amcanir y bydd nifer y bobl o dan 16 oed yn amrywio yn ardal weddilliol Sir Benfro, ond ar y cyfan amcanir lleihad 2.6 y cant yn y boblogaeth hon rhwng 2015 a 2029.

Roedd nifer y bobl rhwng 16 a 64 oed ym mharc cenedlaethol Arfordir Penfro yn 12,800 yn 2014, ac amcanir y bydd yn lleihau 24.2 y cant i 9,700 yn 2029. Amcanir y bydd nifer y bobl 16-64 oed yn

ardal weddilliol Sir Benfro'n lleihau'n gyson rhwng 2014 a 2029, ac y bydd cyfanswm y lleihad yn 5.6 y cant.

Roedd nifer y bobl 65 oed a hŷn ym mharc cenedlaethol Arfordir Penfro yn 6,700 yn 2013, ac amcanir y bydd yn cynyddu 13.5 y cant i 7,600 yn 2028. Amcanir y bydd nifer y bobl dros 65 oed yn ardal weddilliol Sir Benfro'n cynyddu traean (32.3 y cant) rhwng 2014 a 2029.

## Eryri

Mae gan Eryri boblogaeth o 25,500 (amcangyfrif canol blwyddyn 2014) sy'n rhoi dwysedd poblogaeth o 12 o bobl i bob cilometr sgwâr.

Amcanir y bydd nifer y bobl o dan 16 oed a nifer yr oedolion rhwng 16 a 64 oed yn lleihau'n gyson rhwng 2014 a 2029. Ar y llaw arall, amcanir y bydd y nifer sy'n 65 oed neu hŷn yn cynyddu. Amcanir y bydd y boblogaeth yn lleihau 6.6 y cant erbyn 2029; y boblogaeth a amcanir yw 23,800.

Amcanir y bydd newid naturiol yn negatif dros gyfnod yr amcanestyniad; hynny yw, mwy o farwolaethau na genedigaethau. Amcanir y bydd nifer y genedigaethau'n aros yn gyson am y rhan fwyaf o'r cyfnod ac yna'n lleihau (yn rhannol oherwydd cohortau llai o oedolion benywol yn eu 20au a'u 30au). Yn yr un modd, amcanir y bydd nifer y marwolaethau'n aros yn gyson am y rhan fwyaf o'r cyfnod ond yna amcangyfrifir y byddant yn cynyddu ychydig bach. O ganlyniad i hyn, amcanir y bydd y gwahaniaeth rhwng genedigaethau a marwolaethau'n cynyddu'n gyson dros gyfnod yr amcanestyniad.


| | | | Poblogaethn |
|---|---|---|---|
| **2014-15** | Genedigaethau | 210 | |
| | Marwolaethau | 250 | **- 40** |
| **2021-22** | Genedigaethau | 210 | |
| | Marwolaethau | 250 | **- 40** |
| **2028-29** | Genedigaethau | 190 | |
| | Marwolaethau | 270 | **- 80** |

Ffynhonnell: amcanestyniadau o boblogaeth parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

Amcanir y bydd tua 60 yn llai o bobl y flwyddyn yn symud i Eryri nag yn gadael, yn seiliedig ar lefelau mewnfudo ac allfudo dros y pum mlynedd o 2009 hyd 2014.

Mae'r pyramid poblogaeth canlynol yn dangos dosraniadau oedran gwrywod a benywod ym mharc cenedlaethol Eryri yn 2014 a'r dosraniad a amcanir yn 2029.

**Siart 6: Amcanestyniadau o Boblogaeth Eryri rhwng 2014-2029, yn ôl oedran a rhyw**




Ffynhonnell: amcanestyniadau o boblogaeth parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

Amcanir y bydd niferoedd pobl hŷn (65+ oed) yn Eryri (ynghyd â'r ddau barc cenedlaethol arall) yn cynyddu rhwng 2014 a 2029. Mae'r cynnydd yn fwy ar gyfer gwrywod (cynnydd o 850) na benywod (cynnydd o 640), ac mae'n debyg bod hyn oherwydd bod disgwyliad oes gwrywod yn cynyddu. Mae hyn yn gyson â'r patrymau sydd i'w gweld yn gyffredinol ledled Cymru, sef amcanu cynnydd yn y grwpiau oed hŷn.

Amcanir y bydd niferoedd pobl ifanc yn Eryri'n lleihau rhwng 2014 a 2029, fel yn y ddau barc cenedlaethol arall yng Nghymru. Un peth a allai achosi hyn yw'r lleihad ym maint y cohortau iau o ganlyniad i gyfraddau geni cymharol isel ar ôl y flwyddyn 2000. Mae'r patrwm yn debyg ar gyfer gwrywod a benywod, ond mae'r lleihad ychydig bach yn fwy ar gyfer benywod.

## Pob oedolyn (gwryw a benyw)

Amcanir y bydd nifer y bobl o dan 16 yn Eryri'n lleihau 6.5 y cant o 3,700 yn 2014 i 3,460 yn 2029. O'r ardaloedd gweddilliol o gwmpas Eryri, amcanir y bydd niferoedd y bobl dan 16 oed yn 2029 yn;

- Cynyddu'n gyson 6.6 y cant yng Ngwynedd ac yn
- Amrywio yng Nghonwy ac yn lleihau 2.7 y cant yn y pen draw.

Roedd nifer y bobl rhwng 16 a 64 oed yn Eryri yn 14,600 yn 2014, ac amcanir y bydd yn lleihau 20.1 y cant i 11,700 yn 2029. O'r awdurdodau lleol sy'n cynnwys rhannau o Eryri, amcanir y bydd

nifer y bobl 16-64 oed yn ardal weddilliol Gwynedd yn **cynyddu**'n gyson 4.8 y cant rhwng 2014 a 2029. Dros yr un cyfnod, amcanir y bydd y nifer yn ardal weddilliol Conwy'n lleihau 7.8 y cant.

Amcanir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn yn Eryri'n cynyddu un rhan o bump o 7,200 yn 2014 i 8,600 yn 2029. O'r awdurdodau lleol sy'n cynnwys rhannau o Eryri, amcanir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn yn ardal weddilliol Gwynedd yn cynyddu 22.2 y cant rhwng 2014 a 2029. Dros yr un cyfnod, amcanir y bydd y nifer yn ardal weddilliol Conwy'n cynyddu 23.5 y cant.

# Gwybodaeth allweddol am ansawdd

## Cefndir

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn rhoi amcangyfrifon o faint y boblogaeth yn y dyfodol, ac maent yn seiliedig ar dybiaethau am enedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r tybiaethau'n seiliedig gan fwyaf ar dueddiadau'r blynyddoedd diwethaf. Nid rhagolygon ydynt ac nid ydynt yn ceisio rhagweld effeithiau posibl polisïau llywodraeth leol neu ganolog, na newidiadau yn ffordd o fyw'r boblogaeth, ar newidiadau i'r boblogaeth yn y dyfodol.

Mae'r newidiadau i'r boblogaeth y mae'r amcanestyniadau'n seiliedig arnynt yn gallu dibynnu ar newidiadau i'r economi ac i ffordd o fyw'r boblogaeth. Felly, cynghorir pobl â diddordeb mewn amcanestyniadau o boblogaeth parciau cenedlaethol i ddefnyddio'r amcanestyniadau hyn a gyhoeddwyd fel man cychwyn, ac fe'u hanogir i gynhyrchu eu hamcanestyniadau a'u senarios amrywiaethol eu hunain os oes angen. Mae'r feddalwedd PopGroup (ceir disgrifiad byr yn yr adran meddalwedd) a ddefnyddir i gynhyrchu'r amcanestyniadau ar gael i awdurdodau lleol yng Nghymru a cheisir caniatâd gan ONS i rannu'r data sylfaenol a ddefnyddiwyd fel y gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r data i greu eu fersiynau eu hunain os dymunant (fel yn y cylchoedd amcanestyniadau blaenorol).

## Perthnasedd

Mae ystadegau poblogaeth a mudo'n bwysig i ddatblygu polisïau, cynllunio, a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Ceir llawer o alw am ystadegau poblogaeth a mudo i'w defnyddio mewn ystod eang o ffyrdd. Mae’r rhain yn cynnwys:

- gwasanaethau cynllunio ac amcangyfrif yr angen yn y dyfodol ar lefel genedlaethol a lleol (er enghraifft, ysgolion, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol) gan gynnwys paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol;
- cyfrannu at setliad refeniw Cyllid Llywodraeth Leol;
- datblygu polisi;
- cynghori Gweinidogion;
- rhoi sail i ddadleuon yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a thu hwnt;
- cyfrifo ystadegau pellach (er enghraifft, Amcangyfrifon Tai, ac Amcanestyniadau Aelwydydd);
- nodweddion cyffredin mewn cyfraddau (er enghraifft, cyfraddau geni a chyfraddau marw);
- cynhyrchu pwysiadau i rai arolygon sampl;
- proffilio daearyddol, cymharu a meincnodi;
- dadansoddi cohortau poblogaeth a thueddiadau mudo;
- ategu asesiadau lles sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ceir ystod eang o ddata am boblogaeth gan lywodraeth genedlaethol a lleol, elusennau a mudiadau'r sector gwirfoddol, adrannau eraill y llywodraeth, myfyrwyr, academyddion a

phrifysgolion, dinasyddion unigol, a chwmnïau preifat. Yn benodol, ceir llawer o ddiddordeb mewn amcanestyniadau ar lefel awdurdodau lleol. Mae angen i bobl sy'n cynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn darparu gwasanaethau a helpu i fframio polisïau cynaliadwy ystyried y boblogaeth wedi'i dadansoddi yn ôl oedran a rhyw. Mae amcanestyniadau poblogaeth yn gallu canfod tueddiadau sy'n llunio cyd-destun datblygiad polisi yn y dyfodol.

Cafodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 gydsyniad brenhinol ym mis Gorffennaf 2015. Un o elfennau allweddol y Ddeddf yw caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol ddod at ei gilydd a pharatoi Cynllun Datblygu Strategol sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau awdurdodau lleol, gan wasanaethu ardal ddaearyddol ehangach heb ganolbwyntio ar faterion lleol yn unig. Bydd tystiolaeth i ategu'r gwaith o baratoi'r cynllun yn cynnwys ystadegau am ddemograffeg ac amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd y bydd angen eu hystyried mewn cyd-destun strategol. Ailadroddir amcanestyniadau yn y dyfodol, a bydd y rhain yn cyfrannu at lunio cynlluniau strategol.

Mae'n rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol sydd wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (LDP) baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) sy'n mesur sut y mae polisïau wedi perfformio a pha gamau cywiro y gallai fod angen eu cymryd. Mae adroddiadau AMR yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod yr LDP yn aros yn gyfredol. Mae'r cynnydd a ddangosir yn yr adroddiadau AMR yn gallu effeithio ar lefelau a dosbarthiad y boblogaeth, proffiliau demograffig, a phrisiau tai yn y dyfodol. Bydd y canlyniadau hyn, a'u perthynas ag amcanion allweddol y cynllun, yn ffurfio rhan o'r AMR.

### Cywirdeb

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn amcanestyniadau seiliedig ar dueddiadau sy'n rhoi amcangyfrifon o faint y boblogaeth yn y dyfodol, ac yn seiliedig ar dybiaethau am enedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r tybiaethau gan fwyaf yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol. Nid yw amcanestyniadau a wneir fel hyn yn caniatáu ar gyfer effeithiau polisïau llywodraeth leol na chanolog ar lefelau poblogaeth yn y dyfodol, ei dosraniad, na newidiadau iddi

Mae gan amcanestyniadau poblogaeth eu cyfyngiadau. Nid rhagolygon seiliedig ar bolisi yw'r amcanestyniadau hyn am boblogaeth y parciau cenedlaethol; maent yn nodi'r hyn y disgwylir iddo ddigwydd pe bai'r tueddiadau y maent yn seiliedig arnynt yn parhau.

Gan fod proses newid demograffig yn un gronnol, mae'r amcanestyniadau'n mynd yn llai sicr wrth fynd yn bellach i'r dyfodol. Mae newid demograffig yn cael effaith gyflymach a mwy ar rai poblogaethau na'i gilydd. Oherwydd maint y llifoedd mudo a ragwelir, mewn rhai awdurdodau lleol mae tybiaethau am fudo'n bwysicach na thybiaethau am ffrwythlondeb a marwolaethau. Felly, mae tybiaethau am fudo'n gallu cael effaith hirdymor sylweddol ar rai ardaloedd.

Mae'r tybiaethau a wneir am gyfraddau geni a marw'n seiliedig ar lefelau hanesyddol marwolaethau a ffrwythlondeb a sut y maent yn rhyngweithio â maint y boblogaeth ar bob oed. Maent yn gallu amrywio (er enghraifft, oherwydd newidiadau i dueddiadau ffrwythlondeb neu gynnydd mewn disgwyliad oes) ond nid newidiadau tymor byr yw'r rhain fel rheol. Mae mudo hefyd yn gallu rhyngweithio â'r tueddiadau hyn, ond mae'r tueddiadau am fudo eu hunain yn gallu amrywio yn y tymor byr yn seiliedig ar amgylchiadau economaidd neu gymdeithasol. Felly, mae pennu cyfraddau mudo ar gyfer y dyfodol gan ddefnyddio cyfraddau'r pum mlynedd ddiwethaf yn

golygu y gallai'r amcanestyniadau ddioddef oherwydd anwadalrwydd cyfraddau mudo yn y tymor byr. Gall hyn fod yn arbennig o wir am yr amcanestyniadau presennol, oherwydd mae'r tybiaethau'n seiliedig ar gyfnod a oedd yn cynnwys y dirwasgiad byd-eang a llawer o newidiadau i lefelau mudo.

Mae rhai ffactorau'n gallu dylanwadu ar yr amcanestyniadau a thair prif gydran newid yn y boblogaeth: newidiadau i'r economi; newidiadau i ymddygiad unigolion, teuluoedd ac aelwydydd; a digwyddiadau y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

### Amseroldeb a phrydlondeb

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar allbynnau ystadegol Llywodraeth Cymru ar amcangyfrifon ac amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd o fis Chwefror hyd fis Mai 2016. Bwriad yr ymgynghoriad hwn oedd dysgu am brofiad defnyddwyr o ddefnyddio'r allbynnau ystadegol hyn a sut y byddai'n bosibl eu gwella.

Nododd yr ymgynghoriad y cynigiwyd dechrau gwaith ar amcanestyniadau newydd i'r 22 awdurdod lleol a'r 3 awdurdod parc cenedlaethol yn ystod hanner cyntaf 2016. Y bwriad a nodwyd oedd dechrau cyhoeddi canlyniadau o hydref 2016 ymlaen, a darparu allbynnau parhaus hyd at ddechrau 2017, a'r amcanestyniadau o boblogaeth awdurdodau lleol (y rhai yn y Datganiad hwn) ym mis Medi 2016. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r atebwyr:

- A ydych yn cytuno â'r amserlen?
- Beth yw eich anghenion ar gyfer y dyfodol o ran amcanestyniadau?
- Pa mor aml y dylid eu cynhyrchu?

Roedd y rhan fwyaf o atebwyr yn meddwl y dylid cynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth ac amcanestyniadau aelwydydd is-genedlaethol unwaith bob tair blynedd. Roedd yn well gan yr awdurdodau parc cenedlaethol iddynt gael eu cynhyrchu bob yn ail flwyddyn. Roedd yr atebwyr wedi'u rhannu'n hafal ynglŷn ag a ddylid cynhyrchu amcangyfrifon aelwydydd yn flynyddol.

Nododd yr ymateb i'r ymgynghoriad y cynhyrchir amcanestyniadau poblogaeth ac amcanestyniadau aelwydydd is-genedlaethol bob tair blynedd (gan gynnwys rhai ar gyfer ardaloedd parciau cenedlaethol). Cynhyrchir amcangyfrifon aelwydydd yn flynyddol (yn ôl pob tebyg, tua thri mis ar ôl cyhoeddi'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn). Y cynllun yw cynhyrchu amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar ddata 2014 cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

Mae UKSA wedi cynnig y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag ONS a gweinyddiaethau eraill y Deyrnas Unedig i gysoni blwyddyn gychwynnol amcanestyniadau cenedlaethol ac is-genedlaethol lle bo'n bosibl. Gofynnwyd y cwestiwn canlynol i'r atebwyr:

- A ydych yn cytuno â'r dull hwn?

Cytunodd yr holl atebwyr â hyn. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag ONS a gweinyddiaethau eraill y Deyrnas Unedig i gysoni blwyddyn gychwynnol amcanestyniadau cenedlaethol ac is-genedlaethol lle bo'n bosibl. Ar hyn o bryd, mae'r amlderau cyhoeddi a gynllunnir gan Lywodraeth Cymru ac ONS yn wahanol (tair blynedd a dwy flynedd, yn ôl eu trefn),

felly bydd angen ystyried anghenion defnyddwyr cyn pob cylch o amcanestyniadau. Os bydd angen mawr i ddefnyddwyr gael amcanestyniadau mewn blwyddyn wahanol i'r amcanestyniadau cenedlaethol (fel oedd yn wir am yr amcanestyniadau seiliedig ar 2011), ystyrir hyn ac eglurir unrhyw benderfyniad i'r defnyddwyr.

Mae'r adroddiad sy'n rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a chamau gweithredu dilynol Llywodraeth Cymru.

Anfonwch unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar y cyhoeddiadau hyn ac unrhyw farn am y gofynion amseru yn y dyfodol i: ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru.

### Darllenadwyedd ac eglurder

Cyhoeddodd UKSA Adroddiad Asesu 310, *Population Estimates and Projections for Wales (produced by the Welsh Government)*, ym mis Gorffennaf 2015.
Mae'n un o gyfres o adroddiadau a baratowyd o dan ddarpariaethau Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007. Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i'r Awdurdod Ystadegau i ailasesu cydymffurfiad parhaus â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol ar gyfer ystadegau swyddogol y pennwyd eisoes eu bod yn Ystadegau Gwladol. Mae'r adroddiad yn cynnwys yr amcangyfrifon poblogaeth a'r amcanestyniadau poblogaeth canlynol a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cymru ac y sonnir amdanynt yn y canlynol:

- Amcangyfrifon Canol Blwyddyn o'r Boblogaeth;
- Prif Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru a fersiynau eraill,
- Amcanestyniadau o Boblogaeth parciau cenedlaethol.

Mae'r adroddiad yn ffurfio rhan o asesiad ehangach o setiau o ystadegau poblogaeth ledled y Deyrnas Unedig a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS); Llywodraeth Cymru; Cofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA). Mae adroddiadau asesu 309, 310 a 312 yn archwilio'r ystadegau poblogaeth a gynhyrchwyd gan ONS, NRS a NISRA yn ôl eu trefn.

Roedd gofyniad 8 asesiad UKSA yn datgan:

> “Mae angen gwella darllenadwyedd allbynnau amcangyfrifon ac amcanestyniadau poblogaeth presennol Llywodraeth Cymru.
>
> Dylai Llywodraeth Cymru:
>
> a) Gwella safon sylwadau – i gynnwys gwybodaeth ychwanegol am y cyd-destun ac esbonio newidiadau – a chyflwyno i wella darllenadwyedd i ystod ehangach o ddefnyddwyr. …”

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r gofyniad hwn oedd:

“Rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r sylwadau yn y datganiad Amcanestyniadau o Boblogaeth y parciau cenedlaethol yng Nghymru, a'i gyflwyniad, gan gynnwys ceisio adborth gan dîm Arfer Da UKSA. Darperir sylwadau am strwythur poblogaeth yn y Datganiad 2015 ac mae esboniadau wedi'u cynnwys o'r ffactorau sy'n effeithio ar newid poblogaeth (er enghraifft, tueddiadau poblogaeth ar gyfer gwahanol grwpiau oed, newid naturiol, a mudo).

Cafodd testun Datganiad 2015 ei asesu o ran darllenadwyedd gan aelod staff â Diploma mewn Saesneg Plaen a roddwyd gan yr Ymgyrch Saesneg Plaen, sy'n golygu bod ganddo gymhwyster i asesu a fyddai dogfen yn cael Nod Grisial (safon y diwydiant ar gyfer darllenadwyedd). Barnwyd y byddai Datganiad 2015 yn cael Nod Grisial. Canfuwyd bod y Datganiad 37 y cant yn well na Datganiad 2011. Byddwn yn gwneud gwelliannau tebyg i'r Datganiad Cyntaf Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru (seiliedig ar 2014)."

### Cymharedd a chydlyniad

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn (ar 30 Mehefin bob blwyddyn). Mae ONS yn cynhyrchu amcangyfrifon o boblogaeth canol blwyddyn ar gyfer Cymru a Lloegr. Er mwyn cynhyrchu'r amcanestyniadau awdurdodau lleol, cyfunir yr amcangyfrifon poblogaeth â thybiaethau am enedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r tybiaethau hyn yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol.

Ar gyfer mudo, defnyddir diffiniad y Cenhedloedd Unedig o ymfudwr rhyngwladol; hynny yw, rhai sy'n newid y wlad lle maent yn byw am gyfnod o 12 mis o leiaf. Nid yw'r amcangyfrifon o'r boblogaeth yn cyfrif ymfudwyr tymor byr (er enghraifft, gweithwyr ymfudol o wledydd Dwyrain Ewrop).

Mae'r amcanestyniadau parciau cenedlaethol hyn yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol 2014 ar gyfer parciau cenedlaethol Cymru.

Mae'r data sylfaenol a ddefnyddiwyd i wneud y cyfrifiadau'n cael eu cynhyrchu gan ONS am holl gyfnod yr amcanestyniad, sef pum mlynedd ar hugain fel rheol. Er mwyn cynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth, mae angen ffurfio tybiaethau i amcan lefelau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo yn y dyfodol ym mhob awdurdod lleol.

Dyma ddolen at ganllawiau ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd gan ONS i gynhyrchu'r amcangyfrifon poblogaeth:

Gwefan Office for National Statistics: Population estimates methodology

Mae'r amcanestyniadau hyn yn seiliedig ar fethodoleg debyg i'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer amcanestyniadau poblogaeth yr awdurdodau lleol a oedd yn seiliedig ar ddata 2011.

cynhyrchir amcanestyniadau poblogaeth parciau cenedlaethol gan ddefnyddio dull demograffig sefydledig, sef y dull cydrannau cohortau. Hynny yw:

- cymryd amcangyfrif poblogaeth y flwyddyn ddiweddaraf;
- tynnu grwpiau poblogaeth arbennig;
- ychwanegu blwyddyn at oed pob unigolyn;
- ychwanegu genedigaethau a thynnu marwolaethau;
- caniatáu am fudo i mewn ac allan;
- adio'r grwpiau poblogaeth arbennig unwaith eto.

Datblygwyd methodoleg yr amcanestyniadau hyn drwy gydweithio'n agos â defnyddwyr allweddol yng Nghymru drwy gyfrwng gweithgor Amcanestyniadau Is-genedlaethol Cymru (WASP). Mae'r

grŵp hwn wedi cwrdd yn rheolaidd wrth i'r amcanestyniadau gael eu paratoi ac mae wedi bod yn fforwm ar gyfer trafodaeth dechnegol am y fethodoleg a'r data sylfaenol a ddefnyddiwyd. Mae aelodau o WASP yn cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol a'r parc cenedlaethol ac eraill sy'n wybodus ac yn brofiadol o ran data demograffeg ac amcanestyniadau poblogaeth.

Mae diweddariadau rheolaidd hefyd wedi'u darparu yng nghyfarfodydd llawn Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru (WSLC).

Mae'r tybiaethau, yn gyffredinol, yn seiliedig ar dueddiadau yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf, ac mae'r amcanestyniadau'n dynodi beth allai ddigwydd pe bai'r tueddiadau hyn yn parhau. Mae addasiadau wedi'u gwneud i'r tybiaethau am farwolaethau ar lefel grwpiau oed pum mlynedd, i ystyried gwelliannau i gyfraddau marwolaethau yn y dyfodol. Cymerwyd yr addasiadau hyn o'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol a gynhyrchwyd gan ONS. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cyfraddau marwolaethau wedi gwella, ac felly mae disgwyliad oes wedi cynyddu. Tybir y bydd hyn yn parhau yn y dyfodol.

Mae'r tybiaethau am ffrwythlondeb yn seiliedig ar dueddiadau yn y blynyddoedd diwethaf; bu tuedd gyffredinol o gyfraddau genedigaethau ychydig yn uwch ymysg menywod yn eu tridegau, sy'n arwydd o oedi cyn bod yn fam. Mae'r amcanestyniadau'n dangos beth allai ddigwydd yn y dyfodol pe bai'r tueddiadau hyn yn parhau. Mae addasiadau wedi'u gwneud i'r tybiaethau am ffrwythlondeb ar lefel grwpiau oed pum mlynedd, i ystyried patrymau tebygol yn y dyfodol o ran oedran y fam. Cymerwyd yr addasiadau hyn o'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol a gynhyrchwyd gan ONS.

Mae'r holl ffigurau sy'n ymwneud â phoblogaeth oedran gweithio ac oedran pensiwn yn seiliedig ar oedran pensiwn y wladwriaeth yn y flwyddyn dan sylw. Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 mlwydd oed i ddynion a 60 mlwydd oed i fenywod, i 65 mlwydd oed i'r ddau ryw. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 mlwydd oed i 68 mlwydd oed i'r ddau ryw.

Mae canllawiau ynglŷn â'r fethodoleg fanwl a ddefnyddiwyd i gynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol Cymru wedi'u cyhoeddi yn yr adroddiad technegol.
Mae'n disgrifio sut y cynhyrchwyd yr amcanestyniadau o boblogaeth y parciau cenedlaethol, ac yn disgrifio'n fanwl y fethodoleg a ddefnyddiwyd i ffurfio tybiaethau am ffrwythlondeb, marwolaethau, a mudo.

Cynhyrchir amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer ardaloedd bach tebyg yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond dylid nodi nad yw'r amcanestyniadau hyn yn uniongyrchol gymaradwy oherwydd gwahaniaethau o ran methodoleg a blwyddyn gychwyn. Mae mwy o wybodaeth am sut y mae'r amcanestyniadau hyn yn debyg ac yn wahanol ar gael yn: Gwefan Office for National Statistics.

### Meddalwedd

Defnyddiwyd y feddalwedd PopGroup i gynhyrchu'r amcanestyniadau. Mae POPGROUP yn deulu o fodelau demograffeg a ddatblygwyd i gynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth, aelwydydd,

llafurlu, a deilliadau eraill mewn ardaloedd daearyddol neu grwpiau poblogaeth penodol (neu'r ddau).

Gellir defnyddio amrywiaeth o fewnbynnau data a thybiaethau i gynhyrchu rhagolygon. Gellir amcangyfrif poblogaethau'r presennol a'r dyfodol, ynghyd â'u cyfansoddiad manwl o ran oedran a rhyw. Mae prif fodiwl POPGROUP yn darparu model cydrannau cohortau (y fethodoleg a ddefnyddir gan asiantaethau ystadegau gwladol y Deyrnas Unedig) sy'n caniatáu datblygu amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar fewnbynnau a thybiaethau genedigaethau, marwolaethau a mudo.

Gellir defnyddio POPGROUP i gynhyrchu ystadegau poblogaeth o safon sy'n addas i'w defnyddio ar gyfer cynllunio strategol, cynllunio gwasanaethau a datblygu polisi. Mae awdurdodau lleol a sefydliadau lleol a rhanbarthol ledled y Deyrnas Unedig yn defnyddio llawer ar POPGROUP. Mae'n defnyddio llyfrau gwaith Excel i reoli'r mewnbynnau ac allbynnau data, ac mae'n ddigon hyblyg i ddefnyddwyr allu arbrofi a dadansoddi amcanestyniadau gwahanol.

### Defnyddio data gweinyddol

Mae'r amcanestyniadau poblogaeth yn defnyddio data gweinyddol ONS. Dyma'r ddolen at adroddiadau gwybodaeth methodoleg ac ansawdd ONS ar gyfer thema poblogaeth.

Mae'r adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data ar gyfer yr allbwn a enwyd ac am ansawdd y data hynny. Eu bwriad yw rhoi gwybodaeth am gryfderau a chyfyngiadau'r data fel y gellir gwneud penderfyniadau am ffyrdd priodol o ddefnyddio'r data. ONS sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd data gweinyddol i'w defnyddio mewn ystadegau swyddogol. Fodd bynnag, fel defnyddiwr a chynhyrchydd allweddol o ystadegau, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y prosesau'n briodol i unioni unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ansawdd sy'n berthnasol i'r amcanestyniadau hyn, a bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag ONS i ystyried sut y gellid gwneud unrhyw welliannau yn y dyfodol.

Mae'r data gweinyddol a ddefnyddiwyd yn yr amcanestyniadau wedi cael eu gwirio'n fewnol gan Lywodraeth Cymru o ran eu cysondeb a'u hygrededd.

Mae ystadegau genedigaethau'n seiliedig ar nifer y genedigaethau sy'n digwydd mewn blwyddyn benodol. Maent yn cyflwyno data am enedigaethau sy'n digwydd ac yn cael eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ystadegau'n seiliedig ar wybodaeth a gesglir wrth gofrestru genedigaethau. Rhyddheir data blynyddol mewn cyfres o becynnau â themâu penodol, fel rheol rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr. Cyhoeddir ystadegau genedigaethau blynyddol y Deyrnas Unedig a'i gwledydd o dan ystadegau hanfodol: tablau cyfeirio poblogaeth ac iechyd.

Mae ystadegau genedigaethau ONS yn seiliedig ar gofrestriadau a ddarperir gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol (GRO). Mae'r data hyn yn gofnod cyfreithiol, sy'n golygu mai dyma'r ffynhonnell ddata orau a'r fwyaf cyflawn.

Fel rhan o'r broses o gofrestru genedigaethau, cyn y cyflwynir data drwy'r system Cofrestru Ar-lein ar gyfer genedigaethau a marwolaethau (RON), bydd y cofrestrydd yn gofyn i'r hysbysydd wirio bod yr holl ddata a gofnodwyd yn gywir. Yna, bydd y cofrestrydd yn gallu cywiro unrhyw gamgymeriadau. Mae rhai gwiriadau dilysu'n rhan o'r system RON i helpu'r cofrestrydd â’r broses

hon. Yn gyffredinol, credir bod gwybodaeth a roddir wrth gofrestru genedigaeth yn gywir, oherwydd gallai'r hysbysydd gael ei erlyn am gyflenwi gwybodaeth ffug yn fwriadol.

Pan fydd ONS yn derbyn cofrestriadau genedigaethau, cynhelir nifer o wiriadau ar y cofnodion i sicrhau eu bod yn ddilys. Caiff cofnodion â gwerthoedd eithafol ar gyfer y prif newidynnau (megis oed y fam ac oed y tad) eu gwirio'n amlach gan fod y rhain yn cael mwy o effaith ar y tablau a gyhoeddir. Caiff unrhyw gofnodion genedigaethau sy'n edrych yn amheus eu codi gyda'r GRO bob mis ar gyfer ymchwiliadau pellach. Caiff unrhyw newidiadau arfaethedig i ddulliau cofnodi a chasglu data cofrestru genedigaethau eu rheoli'n ofalus gan gynnwys ONS, GRO, a rhanddeiliaid eraill. Mae hyn yn sicrhau yr ystyrir yn llawn unrhyw oblygiadau i ystadegau genedigaethau.

Mae newidiadau a wnaethpwyd yn ddiweddar i Ddeddf Poblogaeth (Ystadegau) 1938 yn golygu bod gwell data wedi'u casglu am blant blaenorol ers mis Mai 2012. Bydd y newidiadau'n gwella cywirdeb ystadegau genedigaethau yn ôl trefn genedigaethau ac yn cyfrannu at amcangyfrifon o faint teuluoedd a mesurau ffrwythlondeb.

Mae ONS yn cynnal archwiliadau chwarterol o'r set ddata genedigaethau.

Roedd Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1836 yn ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i gofrestru pob marwolaeth o 1 Gorffennaf 1837 ymlaen. Mae ystadegau marwolaethau Cymru a Lloegr yn seiliedig ar y wybodaeth a gesglir pan fydd marwolaeth yn digwydd ac yna'n cael ei chofrestru. Mae'r ffigurau a gyhoeddir yn cynrychioli nifer y marwolaethau a gofrestrir yn y cyfnod y cyfeirir ato.

Mae'r ystadegau marwolaethau blynyddol yn cynnwys Cymru a Lloegr. Mae'r tabl Data Cyfres Amser Blynyddol yn yr ystadegau hanfodol: tablau cyfeirio poblogaeth ac iechyd yn darparu ystod o ystadegau marwolaethau'r Deyrnas Unedig a'i gwledydd, ac mae rhai mesurau ar gael mor bell yn ôl ag 1838.

Mae ONS yn derbyn detholiadau dyddiol o gofrestriadau marwolaethau gan RON ac maent yna'n mynd drwy gyfres o brosesau dilysu awtomatig sy'n tynnu sylw at unrhyw anghysondeb. Mae'r Metadata Marwolaethau'n rhoi gwybodaeth fanwl am gasglu a phrosesu data marwolaethau ar gyfer Cymru a Lloegr, ac am ansawdd y data hyn.

Yna, cynhelir gwiriadau cysondeb mewnol i ddileu unrhyw gamgymeriadau a wnaethpwyd wrth gofnodi marwolaethau, ac i sicrhau bod y set ddata flynyddol yn gyflawn. Cyn y gellir eu defnyddio at ddibenion dadansoddi, mae'r data'n mynd drwy fwy o wiriadau a phrosesau dilysu, gan gynnwys cyfrif amledd ystod o newidynnau, gwirio hygrededd cyfuniadau o feysydd, a gwirio anghysondebau. Cyfeirir cofnodion amheus yn ôl at swyddfeydd cofrestru. Cyfeirir unrhyw bryderon am achos marwolaeth at Ymgynghorydd Meddygol neu Epidemiolegydd Meddygol.

Mae ONS, NRS, a NISRA yn cynhyrchu amcangyfrifon mudo mewnol a rhyngwladol hirdymor ar lefel parciau cenedlaethol ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon at ddiben cynhyrchu ystod o amcangyfrifon poblogaeth. Cyflwynir y data ar ffurf:

- Niferoedd mewnfudo ac allfudo rhyngwladol hirdymor - yn cynrychioli nifer y bobl sy'n cyrraedd neu'n gadael y Deyrnas Unedig am gyfnod o 12 mis o leiaf.

- Niferoedd mewnfudo ac allfudo mewnol - amcangyfrif o fudo o fewn y Deyrnas Unedig (llifoedd dros ffiniau pob un o'r gwledydd, yn ogystal â mudo rhwng awdurdodau lleol).
- Cyfraddau trosiant mudo rhyngwladol a mewnol hirdymor (megis nifer y symudiadau rhwng mewnfudo ac allfudo) i bob 1000 (o gyfanswm y boblogaeth)
- Cyfraddau mewnlifiad ac all-lifiad rhyngwladol hirdymor i bob 1000 (o gyfanswm y boblogaeth)
- Cyfanswm nifer mudo i bob 1000 (cyfanswm mudo mewnol a rhyngwladol). Mae hyn yn dangos yn gliriach ym mha ardaloedd mae llawer o drosiant poblogaeth

Mae ONS yn cynhyrchu amcangyfrifon mudo rhyngwladol tymor byr ar lefel parciau cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r data'n cynnwys niferoedd mewnfudo rhyngwladol tymor byr, sy'n cynrychioli nifer y bobl a arhosodd yng Nghymru a Lloegr am gyfnod rhwng 3 a 12 mis.

Bydd cofnodion mudwyr rhyngwladol sy'n ymuno â ffynhonnell weinyddol yn dibynnu ar ddiben y system weinyddol dan sylw ac mae'n anochel y bydd yn amrywio o un ffynhonnell i'r nesaf.

O ganol 2011 ymlaen, ystyriwyd bod carcharorion yn preswylio fel rheol mewn sefydliad os ydynt wedi cael dedfryd o garchar am chwe mis neu fwy. Cyn hynny, fel rheol ystyriwyd bod carcharorion yn preswylio yn y sefydliad os oeddent wedi cael dedfryd o garchar ac eisoes wedi bod yn y carchar ers chwe mis neu fwy. Newidiwyd y diffiniad i fod yn fwy cyson â diffiniad Cyfrifiad 2011 o breswylfa arferol carcharorion.

Ar gyfer poblogaeth arbennig y Lluoedd Arfog, defnyddiwyd cyfartaledd pum mlynedd o ddata i amcangyfrif niferoedd y lluoedd arfog yng Nghymru ar gyfer y ddau ryw a phob blwyddyn o oed. Yna, daliwyd y ffigurau hyn yn gyson drwy gydol pob blwyddyn yn yr amcanestyniad.

Cyn canol 2011, roedd disgyblion preswyl mewn ysgolion yn cael eu trin fel poblogaeth arbennig oherwydd y gred oedd nad oedd eu symudiadau'n cael eu cynnwys yn y ffynonellau data a ddefnyddir i amcangyfrif mudo mewnol. Fodd bynnag, mae ymchwil bellach wedi dangos bod symudiadau disgyblion preswyl yn cael eu mesur yn yr amcangyfrifon o fudo mewnol ac felly ni chaiff y gydran hon ei chynnwys mwyach yn yr amcangyfrifon canol blwyddyn. O ganlyniad, cafodd disgyblion preswyl eu trin fel poblogaeth arbennig yn amcanestyniadau poblogaeth yr awdurdodau lleol yn 2006 a 2008, ond ni fydd hyn yn digwydd yn yr amcanestyniadau presennol nac yn y dyfodol.

## Statws Ystadegau Gwladol

Cynhyrchir Ystadegau Gwladol at safonau proffesiynol uchel a amlinellir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Maent yn destun adolygiadau sicrhau ansawdd rheolaidd i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cwsmeriaid. Cânt eu cynhyrchu heb ddim ymyrraeth wleidyddol. Cyn gynted ag y bydd ystadegau wedi'u pennu'n Ystadegau Cenedlaethol, mae'n ofyniad statudol i barhau i lynu at y Cod Ymarfer.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus. Dylai ystadegau swyddogol i gyd gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Byddant yn cael statws Ystadegau Gwladol ar ôl asesiad gan gangen rheoleiddio Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n bodloni'r safonau uchaf o ran cydymffurfiad â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a thrafodaethau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cynnal cydymffurfiad â'r safonau a ddisgwylir gan yr Ystadegau Gwladol. Os bydd pryderon nad yw'r ystadegau hyn yn dal i fodloni'r safonau priodol, trafodir y pryderon hyn â'r Awdurdod ar unwaith. Gellir colli statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg os na chynhelir y safonau uchaf, a gellir cael y statws yn ôl ar ôl adfer y safonau.

Mae'r amcanestyniadau wedi cael eu hasesu gan Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig (UKSA) ac ers hynny maent wedi cael eu cyhoeddi fel Ystadegau Gwladol. Cawsant eu hasesu eto (adroddiad UKSA 310) ym mis Gorffennaf 2015 ynghyd â rhai gwledydd eraill y Deyrnas Unedig. Mae'r holl ofynion yn adroddiad yr asesiad wedi'u bodloni, a chadarnhawyd eu statws fel Ystadegau Gwladol ym mis Hydref 2016.
Ceir mwy o fanylion am asesiad UKSA yn yr adran *darllenadwyedd ac eglurder*.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru. Mae'r rhain yn anelu at Gymru fwy cyfartal, ffyniannus, gwydn, iach a chyfrifol yn fyd-eang, â chymunedau cydlynol a diwylliant llewyrchus â'r Gymraeg yn ffynnu. Dan adran (10)(1) y Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu defnyddio at ddiben mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau Llesiant, a (b) cyflwyno copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Pennwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016, ac er nad yw'r Datganiad hwn yn rhoi data ar gyfer unrhyw un o'r targedau'n uniongyrchol, gellid ystyried rhai o'r targedau mewn perthynas â'r meintiau poblogaeth a amcanir yn y Datganiad.

Gwybodaeth am ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol amrywiol - Sut mae mesur cynnydd cenedl? - Dangosyddion Cenedlaethol

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Gallai'r ystadegau a gynhwysir yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a gallai byrddau gwasanaethau cyhoeddus eu defnyddio mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Manylion pellach

Mae'r ddogfen ar gael yn:
http://llyw.cymru/statistics-and-research/population-projections-national-parks/?lang=cy

Dyma gyfres o Gwestiynau Cyffredin

Dyma gyfres o Gwestiynau Cyffredin:
http://gov.wales/docs/statistics/2016/160126-population-projections-faqs-en.pdf

## Diweddariad nesaf

Medi 2019 (i'w gadarnhau)

## Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, a gellir ei ddarparu drwy anfon neges e-bost i ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, ac eithrio lle nodir fel arall.